


Gêm gwydnwch

Mae'r gêm hon yn edrych ar senarios cyffredin y gallai plant ddod ar eu traws yn eu bywydau pob dydd gartref neu yn yr ysgol.

Gêm bwrdd syml yw hon. Mae'r plant yn rholio'r deis ac yn cymryd cerdyn pan maen nhw'n glanio ar y sgwâr priodol. Bydd y cerdyn yn rhoi cyfarwyddyd neu gyfle iddyn nhw ddewis un o dri opsiwn. Os ydyn nhw'n dewis yr ateb mwyaf gwydn byddan nhw'n symud ymlaen dau sgwâr. Byddan nhw'n symud ymlaen un sgwâr am yr ateb mwyaf gwydn ond un, neu'n aros lle maen nhw os ydyn nhw'n dewis yr ateb lleiaf gwydn. Efallai y bydd arnoch angen cownteri a deis 1-6.

Cyn dechrau, trafodwch bwysigrwydd gwydnwch gyda'r plant. Mae gwydnwch yn sgil y gallwn ei meithrin – bydd yn ein helpu gyda'n hiechyd meddwl, bydd yn ein helpu i brosesu emosiynau, a bydd yn ein helpu i wneud penderfyniadau a symud ymlaen. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i aros a thrafod y dewisiadau mae'r plant yn eu gwneud ar gyfer y senarios. Os yw'r plant yn dewis ateb sy'n dangos llai o wydnwch, gallwch drafod pam maen nhw wedi dewis yr opsiwn hwnnw a pham y gallai opsiynau eraill fod yn well i'w helpu i dyfu mwy.

Trwy'r gêm, dylai'r plant ddechrau meithrin dealltwriaeth o wydnwch mewn sefyllfaoedd cyffredin, y gallan nhw wedyn ei defnyddio yn eu bywydau eu hunain. Wrth iddyn nhw symud ymlaen, efallai y byddan nhw eisiau creu eu cardiau eu hunain ar gyfer y gêm.





ENILLYDD!

CYMER
GERDYN

BRON
YNO!

CYMER
GERDYN




DA IAWN!

CYMER
GERDYN

CYMER
GERDYN

GELLI DI
LWYDDO!



CYMER
GERDYN


RWYT TI'N
CAEL HWYL ARNI!

CYMER
GERDYN

CYMER
GERDYN

RWYT TI'N
GWNEUD YN WYCH!

CYMER
GERDYN



DECHRAU



CYMER
GERDYN

DAL
ATI!

Mae Anya yn cael sgôr isel mewn prawf tabl lluosï. Ydi hi'n:

- (a) Meddwl ei bod hi'n wael am fathemateg felly dylai hi ddim trafferthu
- (b) Meddwl y gall mathemateg fod yn anodd ond y bydd yn gweithio'n galetach ar gyfer y prawf nesaf er mwyn cael sgôr well (*symud ymlaen 1*)
- (c) Gofyn i'w hathro esbonio ble aeth hi'n anghywir ac yn ymarfer gartref (*symud ymlaen 2*)

Mae Greg ar ei ben ei hun yn yr iard chwarae am fod ei ffrind gorau i ffwrdd yn sâl. Ydi e'n:

- (a) Dod o hyd i weithgaredd mae'n mwynhau ei wneud ar ei ben ei hun (*symud ymlaen 1*)
- (b) Siarad â ffrindiau gwahanol ac ymuno â'u gêm nhw (*symud ymlaen 2*)
- (c) Gwneud dim byd ond teimlo'n unig

Mae Theo yn cael ei ddewis olaf ar gyfer gêm mewn gwers addysg gorfforol. Mae ychydig yn ypsët ond mae'n ymuno â'r gêm ac yn gwneud ei orau beth bynnag.

(*Symud ymlaen 2*)

Mae Irfan yn colli mewn gêm gyfrifiadurol yn erbyn ffrind. Ydi e'n:

- (a) Rhoi'r gorau iddi a dim ond yn chwarae yn erbyn pobl mae'n gallu eu curo y tro nesaf
- (b) Chwarae'r gêm eto ond yn gofyn i'w ffrind rannu ychydig o awgrymiadau ar chwarae'n well (*Symud ymlaen 2*)
- (c) Chwarae ar ei ben ei hun er mwyn ymarfer (*Symud ymlaen 1*)

Mae Katie mewn gwers celf ac mae ei llun wedi mynd o chwith. Mae'n gofyn i'w hathro a all hi roi cynnig arall arni ac mae'n hapusach gyda'r canlyniad.

(*Symud ymlaen 2*)

Mae Erika wrth ei bodd â dawnsio ac yn ymaelodi â chlwb dawn newydd. Yn y wers gyntaf, mae'n ei chael yn anodd iawn, ond mae'n ymarfer gartref ac yn mynd yn ôl pob wythnos. Ymhen ychydig o wythnosau, mae wedi gwella'n fawr iawn ac mae wir yn mwynhau'r clwb.

(*Symud ymlaen 2*)

Mae Joshua yn cael ei waith cartref yn anodd. Mae ynddo rai cwestiynau nad yw'n gwybod yr atebion iddyn nhw ac mae eisiau rhoi'r gorau iddi. Beth fyddai'r peth gwydn i'w wneud yma?

(Trafodaeth grŵp – pawb i symud ymlaen un pan ddewch o hyd i ateb da)

Mae Jamal yn cael 9/10 mewn prawf sillafu anodd ar ôl ymarfer trwy'r wythnos. Ymdrech wych!

(Symud ymlaen 2)

Mae yna gyfweiliadau ar gyfer y Cyngor Gwyrdd ond nid yw Layla yn cael ei dewis. Mae'n parhau i helpu o gwmpas yr ysgol ac mae ei hathro yn sylwi ar hynny. Y tymor nesaf mae'n cael ei dewis fel cynrychiolydd y dosbarth ar y Cyngor Gwyrdd.

(Symud ymlaen 2)

Mae Thomas yn y clwb nofio ond nid yw wedi llwyddo i gael bathodyn Lefel 3. Mae'n gofyn i'w rieni wneud ymarfer nofio ychwanegol gydag ef ar ddyddiau Sadwrn nes iddo lwyddo i gael y bathodyn.

(Symud ymlaen 2)

Mae yna wasanaeth dosbarth ac mae gan Rosa ran flaenllaw. Mae'n teimlo'n nerfus. Ydi hi'n:

- (a) Gofyn i'r athro newid ei rhan
- (b) Ymarfer pob dydd nes ei bod hi'n gwybod ei rhan ar ei chof *(Symud ymlaen 2)*
- (c) Atgoffa ei hun i beidio â phoeni ac y bydd popeth yn iawn yn y gwasanaeth *(symud ymlaen 1)*

Mae Ben wedi cael beic newydd am ei ben-blwydd. Mae'n cwmpo oddi ar y beic ac yn teimlo'n nerfus ynghylch ei ddefnyddio eto. Ydi e'n:

- (a) Rhoi'r beic i gadw ac yn anghofio amdano
- (b) Mynd yn ôl ar y beic yn rhywle diogel ac yn rhoi cynnig arall arni nes ei fod yn teimlo'n hyderus eto *(Symud ymlaen 2)*
- (c) Gofyn am help gan rywun sy'n gallu reidio beic *(Symud ymlaen 1)*

Mae Danielle wedi cael mynd i fyny un lefel mewn darllen. Mae'r llyfr nesaf yn hir iawn ac yn anoddach nag arfer ac mae hi'n poeni. Mae'n penderfynu ymarfer pob dydd gyda'i chwaer fawr ac yn cwblhau'r llyfr mewn wythnos.


(Symud ymlaen 2)

Mae Amir yn sgorio gôl yn ei rwyd ei hun amser chwarae ac mae'r tîm yn ddig gydag ef. Ydi e'n:

- (a) Gadael y gêm
- (b) Dal i chwarae a gwneud ei orau oherwydd mae pawb yn gwneud camgymeriadau
(Symud ymlaen 2)
- (c) Cynnig chwarae yn y gôl yn lle hynny
(Symud ymlaen 1)

YN WAG AR GYFER EICH ENGHREIFFTIAU CHI

Cownteri



Deis

